

LLEISIAU O LAWR Y FFATRI / VOICES FROM THE FACTORY FLOOR

Ferranti's c.1961 (chwe mis) Austin Taylor's Bethesda 1962 – 1970

Cyfwelai: VN053 Dilys Pritchard

Dyddiad: 02:07:2014

Cyfwelydd: Shan Robinson ar ran Archif Menywod Cymru

There is an English summary of the interview following the Welsh text

Cadarnhaodd Dilys ei henw, ei chyfeiriad a'i dyddiad geni: 19 Mehefin, 1943.

Ei chefnidir: Ganwyd hi yn Ysbyty St David's Bangor (ddim yna bellach) a daeth gartref i dŷ ei Nain ym Methesda. Dyna lle bu hi wedyn, doedd ganddi ddim brodyr na chwiorydd. Roedd chwaer ei mam yn byw efo nhw, a'i mam a hi a Nain. Roedd brodyr ei mam i gyd wedi priodi a gadael cartref.

Aeth i ysgol Penybryn, ac yna am eu bod nhw'n bobol eglwys, bu'n rhaid iddi newid i fynd i ysgol Gerlan – ysgol yr eglwys. Yna aeth i ysgol Cefnfaes ac yn 16 oed aeth i weithio i Woolworth. £14 16 s oedd y cyflog yno'r adeg hynny. Bu'n Woolworth am 3-4 blynedd, ac wedyn **'genod yn siarad a ballu, am gyfloga, a sylweddoli bod Ferranti's yn talu mwy o gyflog.'**

Gadawodd yr ysgol yn 15 oed, achos doedd dim llawer o help i blant yn yr ardal i fynd ymlaen. Doedd hi ddim wedi pasio'r 11+ felly aeth i ysgol Cefnfaes. Os oeddech wedi pasio byddech yn mynd i Ysgol Dyffryn Ogwen – County. Roedd yn rhaid iddi hi fynd i chwilio am waith. Cyn mynd I Woolworth roedd ffrind i'w mam yn gweithio yn Swaines (?) yn y farchnad ym Mangor (nid yw'r farchnad yno mwyach), i helpu ar ddydd Sadwrn, a chafodd fynd i fan'no ar ddydd Sadwrn, ond doedd hi ddim yn licio fo. Roedd wedi rhoi ei ffurflen i mewn yn Woolworth's i ofyn am waith yno. Roedd hi'n falch – yn Swaines - gwerthu blodau a ffrwythau roedden nhw ond roedd yn rhaid gwagio hen fwcledi efo dŵr budr, yn bora a doedd hi ddim yn licio hyn.

Cafodd fynd fel *trainee* ar y cowntar biscuits (yn Woolworth). Ac fel roedd hi'n dysgu, riteiriodd y ledi oedd yng ngofal y cownter, a chafodd hi fynd *in charge*. Roedd hi'n cael *training* sut i wneud y *folders*, a cael y cacenna a gwatshiad bod eu *date* nhw'n iawn, a bod bob dim yn y biscuits yn iawn. Roedd hi'n gorfod tsecio beth oedd yn dod i fewn ac nad oedden nhw'n ordro gormod. Wedyn naethon nhw roi rhywfaint o *Easter Eggs* iddyn nhw, ac roedden nhw'n gorfod gwatshiad ar *ôl* rheiny hefyd. Yna cafodd hogan, Dorothy, i'w helpu hi, a *Saturday girl*. Roedd hi'n o ddrwg pan oedden nhw'n gorfod gwneud *inventory* achos roedden nhw'n gorfod pwysu'r tuniau biscuits ar *scale* pwysu (weio) pobol, ac roedd hynny'n cymryd oriau i'w wneud. Wedyn roedd yn rhaid mynd fyny i'r *stockroom*, i nôl y tuniau yn fan'no ond roedd hogia'r *stockroom* yn eu helpu. Daeth hi *in charge* o'i chownter wedyn.

5.06

Rhwng 1960 a 1970 digwyddodd popeth iddi yn y rhan yma (o'r sgwrs). **Bu yn Ferranti am ryw chwe mis, roedd wedi cael ei threnio fel *capstan operator* oedd yn gneud tylla yn y *washers* yma. Roedd hi'n job fudur efo oel a doedd hi ddim yn licio'r gwaith o gwbl.** Wedyn clywodd bod gwaith yn mynd yn Austin Taylor yn Bethesda, oedd yn well achos roedd hi'n gorfod trafaelio 5 milltir i Fangor ond roedd Austin Taylor jyst i lawr y lôn. **Bu'n ffodus i gael gwaith fel un o'u *key workers* nhw.** O Failsworth yn *Manchester* ddaeth Austin Taylor a dim ond rhyw 12 ohonyn nhw oedd yn *key workers*. Roedden nhw'n dod â'r stwff o'r ffatri arall yn Manchester iddyn nhw eu sortio allan, a setio *sections* i fyny. *Electrical Telecommunications* oedden nhw, ac yn yr adeg hynny BA oedd mesur sgrïws a phetha, - erbyn hyn mae'n metrig. Bryd hynny roedd yn 2 BA a 4BA ...sgrïws.

A dyma nhw'n dweud wrthyn nhw y byddai un ohonyn nhw'n cael mynd i neud *government training* a hi gafodd fynd i Camelaird's yn Biwmares. 'A fi oedd yn unig ddynas ar y cwrs. Dynion oeddan nhw i gyd. A nesh i neud mistêc o fynd mewn sgert y tro cynta, a wedyn wrth gwrs oedd rhaid i fi fynd o flaen y *class* i ddemonstretio beth oeddan ni'n neud yn ffatri ni. Ac wrth gwrs roedd 'na *comments* mawr, am fy mhena glinia fi a petha felly a wedyn beth nesh i ond iwsio mhen a mynd mewn trywsus diwrnod ail.' Fuo hi'n mynd am tua chwech wythnos ... ac roedd 'na bobol o wahanol ffatrioedd, yn mynd i'r cwrs 'ma. Mae'n cofio un dyn, reit fawr o *Anglesey Knitting Company* – dydy hi ddim yn meddwl bod hwnnw'n dal i fynd 'chwaith.

Ar y cwrs roedden nhw'n dysgu i chi sgiliau sut i fanejo pobol, edrych faint oeddech chi'n gwbod am y *product*, ac os nad oeddech chi'n gwbod, roedden nhw'n eu trênio am y *product* roedden nhw'n mynd i werthu. Dallt am *engineering*.

Pam gweithio mewn ffatri? – roedd ei mam ar ei phensiwn, ac roedd ganddi hogan fach, achos roedd ei *relationship* hi wedi torri fyny, a doedd dim pres yn ardal Bethesda. Roedd pobl yn dlawd iawn (ar hyd yr oesau) a does dim llawer wedi newid hyd yn oed heddiw. **Roedd Austin Taylors yn talu cyflog dyn mewn ffordd yna (V £14-16 yn Woolworth).** – tua £56 – roedd hynny'n lot o bres ac roedd e werth lot adeg hynny. A phan symudon nhw o Abercaseg o dŷ Nain, dodrefn ei Nain oedd ganddyn nhw, a **chan ei bod hi'n gweithio roedden nhw'n gallu cael dodrefn newydd a moderneiddio'r ty.**

Bu yn Austin Taylor am tua 8 mlynedd. Daeth oddi yno am iddi fynd yn sal - pan aeth adre am ginio un diwrnod – roedd poen mawr yn ei hochor. Sylwodd ei mam a dweud wrthi am beidio mynd nôl i’w gwaith. Ffoniodd y doctor ac roedd *acute appendicitis* arni, a bu adre am wyth wythnos. **Roedd dyn o’r enw Mr Hall – yn gwatshiad ar ôl y bobl oedd yn gweithio yno, daeth e i’r fflat lle roedden nhw, a rhoi ei chardiau iddi hi a bu’n rhaid iddi hi fynd i dribiwnal i geisio cael ei job yn ôl.**

10.41

Yr adeg hynny doedd yr *unions* ddim wedi dod i fewn – felly colodd hi ei job. Wrth golli ei job cafodd *nervous breakdown*, a bu’n reit wael. **‘Ton i ddim wedi gneud dim byd yn rong, mond wedi bod yn sâl, ac wedi colli cyflog oedd yn cynnal ni fel teulu, d’ach chi’n gwbod.’**

Ar ôl hynny, bu’n rhaid iddi gael pobol o *Mental Health* i’w helpu. Bu Keith Ferns, oedd yn College Road (Bangor), yn ei helpu, a ffurfion nhw Grŵp Seilo – mae lot o bobol â pethau fel hyn yn digwydd iddyn nhw a doedd hi ddim yn sylweddoli hynny nes iddo fo ddigwydd iddi hi – eu bywydau nhw wedi cael eu torri, a gwnaethon nhw drip i Steddfod Llangollen. Ac wrth neud hynny dod i nabod ei gilydd, ac wrth weld mai dim chi oedd yr unig un, roeddach chi’n cael rhyw nerth i ddod at ‘ch hun., a mynd allan a trio wedyn.

Chafoch chi ddim triniaeth dda iawn gin y Cwmni felly?

W, naddo, naddo.

Roedd y rhan fwyaf o’r staff a’r pobol oedd yn gweithio yn y ffatri ei hun o Bethesda. Roedd un *gentleman* ar *wiring*, o’r enw Derek Scott yn dod o Glan Ogwan, mi oedd Don Owen yn dod o Carneddi, roedd o yn y siop baentio, .. Gwilym Breeze – *toolmakers’ section* oedd o, o Glan Ogwan hefyd. Bellach mae’r rhain wedi marw ond mae ei chof hi’n cofio amdany’n nhw.

Beth d’ach chi’n meddwl oedd agwedd y gymuned tuag at y ffatri?

Roedd hi’n help mawr i’r gymuned. Roedd pawb isho gwaith yna. Achos oeddach chi ddim yn talu *fares*, roedd hi jyst lawr lôn i bawb oedd yn gwaelod y pentra. **Ond mi oedd ‘na lot o anghydfod am bod- oedd ‘na lot o Saeson yna a oeddau nhw yn sort o siarad ‘u ffor’ i gael jobsys top ... pobol dŵad ylly, dach chi’n gwbod.** Mae hi’r un fath rwan *‘He who shouts loudest, gets the job.’*

14.16

Dach chi’n cofio’ch dwrnod cynta yn Austin Taylors?

‘Yndw. .. y dyn oedd *in charge* ohonon ni – o’r enw Tom Hewitt o Talybont – o ryw 9-10 o genod ar y lein, ‘a dyma fo’n deud wrtha fi – oedd ‘na rac wrth ‘n ymyl i fan’na, a *channels* du fel hyn, oeddach chi’n mowntio yr *units* ‘ma ar y *channels* ‘ma, ac roedd isho’u ll’nau nhw i gyd, roeddau nhw wedi dod o Failsworth ac wedyn oeddau ni wedi cael job ‘u ll’nau nhw. Rwan oeddau ni’n gorfod gwisgo *goggles* – erbyn rwan oeddau ni

wedi fformio *Transport and General Workers Union* dwi'n meddwl, ... ac mi oeddani wedi cael gwybod, i neud jobsys fel'na oedd isho i ni wisgo *goggles*, neu *mask* neu *rubber gloves*. A wedyn oeddani'n gofyn am y petha 'ma – *safety* 'te?

On i ddim yn siwr be' i neud o'r dwrnod cynta, .. ond oedd o'n well na Ferranti. Doedd hi ddim yn job fudur, - llychlyd, ia ond doeddach chi ddim yn meindio hynny achos oedd gynnach chi ryw fashîn fatha hwfyr i sycio'r llwch i fyny. '

Ei gwaith hi? *Assembly worker* oedd hi ar y dechrau. A wedyn ar ol iddi hi fod yn *Camelairds* cafodd ei rhoi i ar yr *assembly* i ddysgu merched eraill beth i wneud. Erbyn y diwedd roedd 30 o ferched ar y *section*, a cafodd hi ei gwneud yn *leading hand*, nesa i'r boi oedd yn – erbyn hynny roedd Tom Hewitt wedi gadael a dyn o'r enw Tom Greenway, oedd efo nhw, *ex-Sergeant Major* 'a toedd y merchaid ddim yn licio fo, achos bo fo'n eu bosio nhw.' .. a oedd jobsys budur ar yr *assembly*, i neud, dipio rhyw betha mewn oel a'u rhoi nhw fan'na. A 'dyma fi'n syjestio "Well, Tom", medda fi, "*the best thing is to have a rota, so nobody is doing the job more than at least twice in a month*" medda fi, "*that's fair, everybody then is not just leaving one person to do it.*" Roedd yr olew 'ma a merched efo'u gewinedd a *nail polish* a pethau felly . Fasa fiw i chi gael *rubber gloves*, achos roedd y peth 'ma yn toddi ryber.'

17.20

Lle oedd y management yn cymyd eich syniada chi? Oeddani nhw'n gwrando arnach chi ..?

I ddechrau doedden nhw ddim yn cael unrhyw *input* i'r deud, tan nes dôth yr *Union*, a rwan roedd isho *shop steward*, 'Wel, dyma nhw'n rhoid 'n enw i lawr! Ton i ddim yn gwobod dim byd am fod yn *shop steward*, a dyma fi'n deud "Ew na, dwi ddim isho bod." Ond beth ddigwyddodd oedd fod pobol yn fotio ac mae'n rhaid bod rhai wedi fotio iddi hi, a chafodd fynd i Colwyn Bay i ryw ysgol i ddysgu sut i fod yn *shop steward*.

Mae'n sôn nawr ymlaen dwy flynedd – roedd hi'n aeaf ac yn oer yn Austin Taylor. Os oeddech chi'n dod i fewn ar ddydd Sadwrn, oeddach chi'n cael pob peth, ac os oeddach chi'n dod i fewn ar Ddydd Sul roedd 'na *bonuses* a phetha. Roedd hi'n oer ac roeddani nhw wedi dod i fewn ar y dydd Sadwrn a'r dydd Sul – O oeddani nhw isho mynd ar streic ar y dydd Llun! 'A dyma fi'n deud wrthyn nhw "Wel fedrwch chi ddim gneud hynny, da chi 'di dod i fewn ar yr un *temperature* dydd Sadwrn a dydd Sul, rhaid i chi ddod i fewn." O! *No wê*. A dyma nhw'n mynd ar streic rwan, a dyma fi'n dod i fewn, - on i'n cerddad i ngwaith dydd Mawrth a dyma bos 'n *section* i'n deud "Dilys, *get in this bloody car*" medda fo wrtho fi "*because there's people on the gate and if you try and walk in, you'll be in trouble.*" "*Oh no, I'll be alright*". A dyma fo'n dod allan o'r car a gafal yno fi, a rhoi fi yn y car.' Roedd hi'n gweld beth roedd o'n feddwl pan aethon nhw drwy'r giatiau, roedd *pickets* ar y giat. Wedyn dyma hi i fewn, - wrth bod hi efo *leading hand*, roedden nhw'n cymryd ei bod hi efo'r *management* ond doedd hi ddim. Roedd hi'n gorfod bod gyda'r *Union*. So dyma ddwy o'r genod yn dweud na wnaen nhw ddim gweithio efo hi a dyma nhw'n cael *instant dismissal*. Wedyn roedd hi'n teimlo'n annifyr am hynny, a dyma hi'n dweud "*Well, you know, they don't understand what's going on. ... and it's a*

bit harsh to give them ...” “*O.K. we’ll just let them off for two days.*” Ac fe gaethon nhw ddod yn eu hola i fewn, achos genod ifanc oedden nhw. Felly y gwnaeth hi ddysgu rheolau *Union*.’ Gwnaeth hi lot o bethau yn yr adeg hynna nad oedd hi erioed yn ei bywyd wedi gorfod gwneud a *decisions*. A be arall gafodd hi ei dysgu oedd – darllen *drawings* mawr, ‘fatha’r llawr ‘ma’, efo lluniau *co--junction boxes*. Roedden nhw’n gyrru rhai i lawr i Dubai - i’r *oil field*, a daeth Arab yno (yn ei *national costume*) a dyma fo’n gofyn amdani hi –

20.50

Naci - (camgymeriad “dwi wedi jympio’r *gun*”). Aeth Dilys o’r *shop floor* i weithio i’r offis - *sales liaison clerk* – roedd yn gorfod siarad efo’n bobl oedd yn prynu’r pethau ganddyn nhw. A dyma’r dyn yma’n dweud ei fod yn dod i weld – felly dyma’r ddynas yn y *foyer* – hi oedd yn grîtio pawb – yn ei ffonio hi i’r offis, a dyma hi’n deud bod Arab yn y *foyer* isho’i gweld hi! A doedd hi ddim yn meddwl ei fod o’n gallu siarad Saesneg. Aeth hithau i lawr a’i groesawu ac roedd o’n gallu siarad Saesneg yn iawn. Roedd o wedi graddio o Rydychen. Wedyn bu’n rhaid iddi fynd ag o i Douglas Arms Hotel i gael bwyd ac wedyn roedd o’n siarad am beth oedden nhw’n ei wneud. Roedd ei bos wedi rhoi pres iddi i dalu am fwyd iddo fo. Felly mae wedi cael *experiences* nad oedd hi’n eu disgwyl.

Faint o ferched oedd yn y ffatri? Roedd 30 ar bloc *assembly*; tua 40 neu fwy ar y *wiring*; wedyn rhai ar y *packing*, ac roedd rhai ar bloc *assembly* yn jyst gwneud y blocs ond *box assembly*, rydach chi’n rhoi’r blocs i fewn yn y bocs yna yn rhoi *sealant* i gadw’r bocs yng nghau. Roedd tipyn gol-ew o ferchaid yn gweithio yno.

Faint o ddynion – Gwilym Rees – os oedd y mashîn yn torri, roedd *section* Gwilym yn dod yno i weld beth oedd yn bod. Bydden nhw’n mynd â’r tŵl i lawr i’r gwaelod i’w drwsio. Roedd mwy o ferchaid na dynion.

Roedd gwahaniaeth rhwng gwaith y merchaid a’r dynion ond roedd rhai merchaid yn gwneud y gwaith roedd dynion yn ei wneud. Roedd *cables* mawr, tew, fel y bocs yn ymyl Caffi Seren – yn sgwâr fel yna, oddi mewn i fan’no mae *cables*, 4 ohonyn nhw, ac ynddyn nhw mae weiers bach tena o bob lliw, ac mae bob lliw yn representio – roedd y merched yma’n gorfod cael eu trênio i wbod lle yn union roedd y rhain yn mynd. Ac roedd y *cables* yn drwm, a bob tro roeddau nhw isho *cable* newydd, roedden nhw’n gorfod gwitshiad i un o’r dynion ddwâd â *cable* achos roedd o’n drwm ofnadwy. Ond roedd rhai yn stryglo efo’r blwmin *cables*.

24.21

Ac wedyn efo pacio – codi bocsys. Roedden nhw’n cael rhoid y *corrugated* rhag i’r bocs gael ei sgratsho o baent, a wedyn rhoi rhyw gyfar arno fo a wedyn ‘i bacio fo – Ted yn ‘i bacio fo, - ond toeddan nhw ddim i’w godi. Bydda hogia’n dâd i godi’r bocs. Byddent yn gwneud gwaith i GPO .- sôn am deleiffon a bocs bach ifori – P60, ac un mwy – P45 (eliffant *grey* oedd y rhain); y tu mewn iddyn nhw PD4 (?) *Printed circuits block* – roeddech chi’n medru rhoi weiers i gonectio i fewn. Roedd ‘na ferchaid yn gneud rheiny. Wedyn roedd dwy o ferchaid ar *inspection* – gwraig Gwilym Rees – Joan Rees, oedd ar *inspection* a Christine

Evans – y ddwy o Fethesda. Roeddau nhw'n testio'r petha 'ma ac os oedden nhw'n gweld un yn rong roeddau nhw'n rijectio'r holl *unit*. Roeddau nhw'n anfon lot – *consignment* cyfan – miloedd ar filoedd o focsych bach, i'r GPO. A wedyn oedd dyn o'r GPO yn dod yna i'w inspectio ac os oedd gynnach chi label y ffordd rong byddai'n eu gwrthod. Byddent yn colli yr ordor i fynd. Byddai'n rhaid mynd â'r ordor yn ôl ar yr *assembly*, a 'oeddau ni'n gorfod bod reit ofalus sut oeddau nhw'n rhoid y petha yn *section packing*, bod nhw'n addas i fynd allan o'r ffatri.

26.28

Oedd merched yn swyddogion yno? Nag oedd, pan oedd hi yna. Dynion rhan fwyaf. Roedd Mr Taylor ei hun fyndy grisiau, wedyn roedd y *drawing* offis, wedyn roedd Mike – fo oedd yn testio – roedd *plastics* yn dod i fewn mewn *liquid*, roedd o'n gorfod testio'r peth poeth yma – roedd o'n rhoi plastic 'ma i mewn mewn *mould*, a sbïo arno fo, i edrych a oedd e wedi fformio'n iawn. Os oedd o'n iawn roeddau nhw'n prynu'r *moulds* yma gan y *manufacturers*. Ond roedd *manufacturers* gwahanol, ac roedd rhai yn well na'i gilydd. **Un dwrnod, mi aeth o i dorri'r PD4s yma ar *circular saw*, a dyma hi'n dweud wrtho – gan ei bod hi ar yr *assembly*, 'Mike nei di roid *safety cover* arno fo,' 'O, na, fydd i'n iawn' medda fo. ... A dyma top 'i fys o'n dod i ffwrdd a fflïo drwy'r awyr a *thump* ar lawr. Roedd rhywun wedi dweud wrthi os byddai'n gafael mewn peth fel'na a'i roi yn ôl lle mae e i fod, mi neith o ... 'So dyma fi'n gafal yn top 'i fys o a roid o nôl, a dyma Mike yn pasio allan! So odd raid i mi fynd ar mhenaglinia ar lawr a deud 'Cerwch i nôl Arwel, *First Aid*.' "Well done" medda fo 'tha fi, 'Ti 'di gneud yn iawn, "' A dyma fo'n beindio fo neu mi fasa Mike'di colli'i fys. Ac mi fydda yna lein wen bob amsar o gwmpas 'i fys o. Pen bach – ddim yn gwrandao arni. Hi achubodd ei fys o er nad oedd hi'n gwybod dim am *First Aid*.**

Gan iddi symud i'r offis a oedd yna gyfle felly iddi wella'i hun yn ei swydd?

Oedd gynnoch chi Tom Greenway, *in charge* ohonan nhw; roedd hi'n *leading hand*, ond uwchben Tom Greenway oedd Bert Gillan fel *Managing Director*. Daeth o ati un diwrnod a dweud 'Dilys, there's a job going in the office, you know all these drawing numbers, why don't you try for it? Well I'll put your name down' A'r peth nesa roedd hi'n gwybod roedd hi wedi cael y job. Cafodd ryw fath o draining efo hwnnw. Atab ffôn oedd hi fwyaf, ac roeddau nhw isho gwobod am y *products* ac roedd hi wedi gweithio efo'r *products*, ac yn gwybod beth oeddau nhw ac roedd hi'n gallu darllen y *drawings* yma, wedyn roedd hi'n medru siarad efo nhw. Weithiau roeddau nhw'n cael rhywun o Dubai oedd ddim yn gallu siarad Saesneg yn dda iawn, wedyn roeddau chi'n gorfod gneud yn siwr beth oeddau nhw wedi'i ofyn i chi, a mynd yn ôl atyn nhw a deud 'We have made an order for you, for so and so and I'm sending a copy. Can you please send a letter to confirm that this is what you want. ... Fasa dim iws gyrru *junction boxes* i Dubai a rheiny ddim yn iawn.

30.45

Roedd hi'n fam yn gweithio yna. Oedd yna famau eraill a merched priod yno?

Oedd. roedd 'na ferched mewn oed yno. Roedd ei mam ganddi hi ar ei phensiwn a byddai hi'n mynd i nôl y ferch o'r ysgol ac felly roedd y merched eraill hefyd – teulu'n gwatshiad ar 'u hola nhw. Neu roedd y fam yn gweithio *part time*. Ac wedyn roedd shifft yn y nos, roedd rhai merched yn dod o tua naw o'r gloch tan hanner nos. Roedd y shifft hwn yn handi i ferched. .

Faint o dâl bob wythnos?

Pan oedd hi'n y ffatri – *shop floor* – roedd o tua £30 rywbath ond pan aeth hi i'r offis, - ' **dyn oedd 'di gneud y job oeddan i'n gneud yn yr offis – so, on i'n cael yr un cyflog â odd o'n ga'l.**'

Codiad cyflog? Oedd gyda'r *cost of living*. Doedd e ddim yn lot ond roedd yn help.

Cael ei thalu mewn *envelope* bach brown. Ar ddydd Gwenar roedd hogan o'r *pay* offis yn dod i ben yr *assembly* ac roedd ganddi focs pren a byddai'n galw nymbar – '**one two one oedd 'n nymbar i.' a byddai'n dweud 'Dilys Pritchard one two one.' ac roeddech chi'n rhoi tic ar ymyl i ddangos bo chi 'di ga'l o.'**

Yn yr offis byddent yn dod ag ef o gwmpas a'i roi ar ei desg. Yr un fath – *envelope* brown.

Roedd hi'n ymwybodol o faint roedd gweithwyr eraill yn ei gael. Roedd hi'n dibynnu ar eich job. Os oeddech chi'n gwneud job gymhleth – a weithiau ar yr *assembly line*, os oedd y lein yna wedi gneud lot roeddau nhw'n cael bonusys - roedd o'n 'vario' Roedd *standard wage* ond os oeddach chi'n gneud *overtime* neu'n mynd i mewn ar ddydd Sadwrn, oeddach chi'n cael mwy o bres.

Gwario'i harian? Ychydig iawn fyddai hi'n mynd – Llandudno ac ar y pryd roedd lot o siopau ym Mangor – Polycoffs, Wartskis, (dim yna rwan) ac roedd ganddyn nhw ddillad bach del i blant. Byddai isho iwniform yr ysgol i Mandy. Byddai'n rhaid iddi hi wneud hyn yn gyntaf a gweld beth oedd ganddi dros ben. Gan bod ei mam ar ei phensiwn roeddau nhw'n trio hel, yn y tun 'ma, rhyw bres sbâr.

Beth ddigwyddodd wedyn tra roedd hi'n Austin Taylor, (na, cywiro ei hun).

Roedd ganddi ddigon o ddillad a doedd hi ddim yn un am brynu dillad o hyd. Doedd hi ddim yn mynd allan i ryw ddansys, felly doedd hi ddim yn gwario lot.

35.55

Perks?

Nag oedd , nag oedd. Ond os oeddach chi efo teliffon, roeddech chi'n cael rhywbeth i roi teliffon i mewn, ond nid yw'n sicr yn iawn beth oedd. '**Doeddau ni ddim yn medru fforddio teliffon.'**

Yr Undeb: Mae'n meddwl mai *Transport and General Workers' Union* oedd hi (TUC?). Clive Jenkins oedd *in charge*. O safbwynt ymuno mae'n meddwl bod pawb wedi sylweddoli

... mae'n meddwl eu bod nhw wedi gofyn iddyn nhw – bod nhw isho *union* yna, achos roedd lot o bobol yn y ffatri rwan 'ac wedyn roedd lot o broblema cymlath – gwahanol *sections* – a wedyn roedd isho ryw *clarification* o beth oedd iawndera pobol.'

Bu dwy neu dair streic yno yn ei hamser hi. Rheswm un streic oedd 'bod pobol ifanc ddim yn dallt, wedi mynd i fewn pan oedd hi'n oer dydd Sadwrn a dydd Sul, ac wedyn wedi deud dydd Llun "O, dan ni ddim yn dod i fewn dydd Llun mae'n rhy oer." Wel oedd hynna'n hollol rong. ... ond mae'n rhaid i chi gael, efo *union* fela, be ddudodd y bosys wrtha i, 'They can't do that Dilys, they've come in on the Saturday and the Sunday when the temperature was still the same, they've got to – bethma 'de.' Bu'n rhaid iddyn nhw ddod yn ôl i'r gwaith. Doedd y bosys ddim yn rhyw hapus iawn a wedyn – y pres roedden nhw wedi dod i fewn dydd Sadwrn a dydd Sul, gath hwnnw 'i lowerio (?) am bod nhw wedi colli dydd Llun – rhai ohonyn nhw.

Roedd newid mewn perthynas rhyngddyn nhw a'r bosys pan ymunon nhw â'r undeb. 'Oeddau ni'n gorfod gwatshiad nad oeddau ni'n deud petha o flaen y *management* ylly, rhag iddyn nhw wbod beth oedd yn mynd ymlaen. ... *Privacy* ylly 'de.' Roedd rhai pobol ddim yn syweddoli ac yn deud petha *out of context*.

39.45

Beth oedd bod yn Swyddog Undeb yn ei olygu o safbwynt oriau ac ymroddiad?

Roedd yn rhaid iddi fynd i Colwyn Bay i hotel yno, roedd lot o bobol yn cael *training* yno. Roedd yn cael llyfr o'r rheolau, a phan fyddai pethau'n digwydd roedd hi'n gorfod mynd trwy'r rheolau ac os oedd yn gweld nad oedd y rheolau yn cyd-fynd â beth oedd yn digwydd, roedd ganddi nymbar i ffonio, ac roedd dyn o'r undab yn dod i weld beth oedd y sefyllfa, a wedyn roeddau nhw'n cael *meeting* brys yn y Douglas Arms Hotel (neu arall) – 'This is how you move on and Dilys will do this, that and the other .' Wedyn bydden nhw'n gneud hynny ac efallai na fyddai hynny'n gweithio byddai'n rhaid iddo ddod yn ei ôl, ac adfeisio nhw wedyn. 'Roedd yr undeb efo ni ar hyd y ffordd.' Roedd hi'n dysgu wrth y gwahanol broblemau.

Oedd gan weithwyr y ffatri ofn y rhai oedd yn cynrychioli'r undeb – neu barch tuag atyn nhw?

Oedd, achos roedd rhai ohonyn nhw wedi cael eu helpu. Roedd *trust* yna 'te.

Oeddau nhw'n gwisgo iwnifform?

Methu cofio. Mae'n meddwl eu bod yn dod â'u hoferôls eu hunain. Ac 'ers talwm, oeddau chi'n cael ar eich *tax form* os oeddau chi'n gorfod cael iwnifform oeddau chi'n medru claimio a dwi'n meddwl mai felly oeddau ni'n gneud 'te.'

Oedd y gwaith yn beryglus? (gan gofio stori colli blaen bys)

O, mam, oedd! Roedd yna hogan – roedd hi ar mashîn ac on i yn *leading hand* rwan ar *assembly* a dyma fi'n deud wrthi "Gwranda" medda fi, "ma'n rhaid i ti roi dy wallt yn

dôl, a sgynta fi ddim ond lasting band i roid i chdi,” medda fi, ‘ond os oes gyn ti rwbath gwell i beth’na fo, achos ti’n mynd ar y mashîn ‘ma” medda fi, “a rhag ofn i dy wallt di fynd yn sownd.” O! doedd hi ddim yn mynd i roid. “Wel,” medda fi, “ma rhaid i fi siarsio arnoch chdi bod rhaid i chdi neud o.” Wedyn bu raid i Tom Greenway fynd ati a deud pa mor beryg oedd y mashîn a dangos iddi achos oedd on *fast*, dach chi’n gwbod. Wel, on i ‘di mynd i *stores*, - bora oedd hynna – wel, yn pnawn on i ‘di mynd i *stores*, a dyma fi’n dôl rwan, a dyma rywun yn gweiddi arna fi, “ O, mam bach, ma Christine – ma’i gwallt hi ‘di mynd i fewn i’r mashîn.” Toedd neb wedi meddwl am rhoid y swits off i’r mashîn. So dyma fi yna a swits off y mashîn. Roedd ‘i gwallt hi - roedd gynni hi wallt i lawr hannar ei chefn, ‘Ma fi’n deud wrthi, “Gwranda” medda fi “ma’n rhaid i mi gymyd siswrn a torri dy wallt di.” Wel oedd hi ‘di dechra crio rwan toedd? Wel, dyma fi’n gofyn i rai o’r genod, drïo tynnu rhei o’r gwalltia fel hyn. Buon ni yna am tua hannar awr, rhag ‘i dorri fo jyst bod ni’n tynnu – ocê, roedd hi’n colli rhywfaint o wallt ond toeddan ni ddim yn torri ‘i seis o. Geithon ni’i gwallt hi oddi yno yndo o’r diwadd. Dyma hi jyst yn colapsio a pasio allan a fuo rhaid i ni fynd â hi – Arwel yn mynd â hi – i’r *First Aid*, i Ysbyty Gwynedd. Roedd hi wedi cael sioc mae’n siwr toedd?’

Doedden nhw ddim yn sylweddoli bod y mashîn mor *powerful*.

44.41

Damwain arall – roedd hi wedi mynd adre i Abercaseg, ac roedd ledi yn byw yn Glan Ogwan, ? Glan Ffrydlas oedd Eirwen yn byw .. daeth hi i’r drws tua saith o’r gloch y nos “Dilys” medda hi wrtha fi, “Dwi wedi gadal y pitsh ar .. “ (Be oedd hwn oedd – oeddach chi’n llenwi’r cania ‘ma efo pitsh du, a rhoid y *components* i fewn ac wedyn oeddan nhw’n sychu a rhoi nhw’n fan’na. Ond roedd Eirwen wedi gadal y peth gliw du ‘ma - y swits on) ‘Wel, rhaid i ni fynd i’r ffatri felly” medda fi. Lawr lôn â ni. Ond rwan , roedd ‘na gŵn yn y ffatri yn gwatshiad, *guard dogs – Alsations* mawr, oedd ‘na tua chwech ohonyn nhw. Dyma ni i’r drws a oeddan ni’n gwbod mai Jimmy Richards oedd yn edrach ar ôl y ffatri, ond mi roedd ‘na – dwi ddim siwr beth oedd enw’r *security*, y bobol oedd yn gwatshiad, a dyma ni’n cnocio ffenast a mi oedd Jimmy’n dŵad, o’r *toilet*, wedi bod yn ll’nau’r *toilets* oedd o, a dyma fo’n deud i ni fynd rownd i’r cefn. Bu’n hir yn agor, roedd wedi gorfod gofyn i’r bobol fynd â’r cŵn i’r ochor arall. ‘Ac mi oedd y blwming thing ‘ma on! Mi fasa wedi ecsplodio’r ffatri i gyd tasa ni heb fynd yna efo *coal tar* du oedd yno fo ynde! A wedyn oedd o’n berwi o boeth. Fuo rhaid i ni gael cadacha i roid o *off* a gwitshad iddo fo gwlio i lawr a trio gwagio peth ohono fo achos oedd o’n gan mawr ychi.’

Oedd iawndal os oedd rhywun yn cael ei frifo? Dydy Dilys ddim yn cofio hynny.

Roedd Arwel efo St John’s Ambulance ac roedd wedi cael ei apwyntio i fod yn ddyn *First Aid*. Os oedd rhywun yn sal roedd o’n dod i sbio ac yn gwneud *decision* – galw doctor neu ambiwlans neu beth bynnag. ‘Dyna’r cwblw oedd gynnon ni’.

47.25

Cynhesu'r ffatri a'i goleuo? Digon o olau? –'Ew annwl oedd!'. *Strip lighting* oedd o. Nid yw'n siwr sut oeddau nhw'n twymo ond roedd *radiators* poeth ar hyd y ffatri i gyd.

Cyfleusterau? Roedd toilet a sinc yna a lle dynion a lle merchaid, ond i fwyta eu cinio neu eu *sandwiches* roedd yn rhaid eu bwyta lle roedden nhw'n gweithio. Doedd dim cantîn yna.

Cerddoriaeth? Nag oedd. Fe wnaeth pobol ddechra ond mi nath pobol erill – roedd 'na rai jobsys roeddach chi'n gorfod consentretio faint oeddach chi wedi neud ne faint o hir oedd hwn wedi bod ac roedd o'n *distraction* felly naethon nhw stopio hynna.

Roedd yn lle swnllyd i weithio a doedd dim byd ganddyn nhw i warchod eu clyw. Roedd yn rhaid gweiddi i siarad felly bydden nhw'n gwneud *signs*. Gorfod gweiddi achos roedd *toolshop* yn gwaelod, a doedd dim byd i gau hwnnw rhag y twrw. Wedyn roedd y *wiring*, roedd rheiny yn drilio, i silio'r weians yma, a wedyn oedd gynnach chi *assembly*, **ac roedden nhw yn assembly yn cael horrendous o dwrw.**

'Be oedd y genod yn neud oedd mynd i toilet i gael sgwrs. ... Eto oeddau nhw'n mynd i toilet i gael smôc. Wedyn os oeddach chi yna'n hir oedd Tom Greenway'n gofyn "Where've you been?" Oeddach chi'n gorfod gneud ecsgiw "I wasn't well .."

50.40

Effaith ar ei hiechyd? Dydy hi ddim yn clywed yn dda iawn. Mae wedi gweld rhywbeth yn y papur am ferched wedi bod yn gweithio mewn *industries with a lot of noise*, bod isho nhw archwilio'u clyw, achos doedd dim *ear plugs* na dim byd felly. Ond dydy hi ddim wedi cael arian am hynny.

Sut oedd y merched yn trin y dynion oedd yn gweithio yno – yn enwedig bechgyn ifanc?

